
 Systemau TG: cynllunio ar gyfer llwyddiant TM353

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae systemau TG yn rhan allweddol o'n byd, mewn amgylcheddau busnes, sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, ac yn aml yn gyfuniadau cymhleth iawn a rhyng-gysylltiedig o dechnoleg, sefydliadau a phobl. Ac eto, maen nhw'n methu o hyd, ac yn aml mewn modd trawiadol. Mae'r modiwl hwn yn addysgu'r sgiliau i fyfyrwyr er mwyn eu galluogi i gyfrannu tuag at systemau TG llwyddiannus. Mae'n defnyddio technegau o ddamcaniaeth systemau, peirianeg a rheolaeth feddalwedd er mwyn deall natur llwyddo a methu, cynllunio systemau TG i alluogi llwyddiant, a sicrhau bod systemau TG yn gadarn wrth wynebu heriau yn y dyfodol. Bydd myfyrwyr hefyd yn dysgu sgiliau ym maes rheoli prosiect ac yn cwmpasu materion cyfreithiol, cymdeithasol, moesegol a phroffesiynol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu brofiad proffesiynol cyfatebol mewn systemau gwybodaeth, systemau neu faes sy'n gysylltiedig â TGCh
- profiad cyfredol o weithio gyda systemau gwybodaeth/TGCh cymhleth, y cyfeirir atynt fel systemau technegol-gymdeithasol, neu ymchwilio iddynt
- profiad o addysgu systemau gwybodaeth (neu faes cysylltiedig megis gwybodeg gymdeithasol) ar lefel israddedig neu ôl-raddedig
- ymrwymiad i gymryd golwg gyffredinol o addysgu systemau gwybodaeth a pharodrwydd i ymgysylltu â nifer o ddisgyblaethau
- profiad o gefnogi myfyrwyr neu unigolion eraill ym maes rheoli prosiect
- profiad o ddefnyddio adnoddau ar-lein ar gyfer cyfathrebu ac addysgu, a brwdfrydedd i'w defnyddio, gan gynnwys cynadledda clywedol a chyfryngau eraill
- ymrwymiad i weithio'n greadigol o fewn amgylchedd addysgu ar-lein Y Brifysgol Agored gan ddefnyddio technolegau'r Brifysgol Agored sy'n rhan annatod o'r modiwl hwn
- profiad o ddefnyddio a/neu addysgu amrywiaeth o ddulliau gweithredu a thechnegau systemau gan gynnwys un neu fwy o'r canlynol: methodoleg systemau meddal, technegau diagramu a dynameg systemau sylfaenol.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad ymarferol ym maes dadansoddi problemau technegol-gymdeithasol mewn meysydd cymhleth a dyrys gan ddefnyddio syniadau a thechnegau systemau.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5